



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Gylch Chwarae Aberriw
d/o Ysgol Gynradd Gymunedol Aberriw
Aberriw
Y Trallwng
Powys
SY21 8BA**

Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2018

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn.

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© **Hawlfraint y Goron 2019: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

Dyddiad cyhoeddi: 11/02/2019

Cyd-destun

Meithrinfa cyfrwng Saesneg yn Aberriw yn awdurdod lleol Powys yw Cylch Chwarae Aberriw. Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru ar gyfer 24 o blant rhwng dwy ac wyth oed. Mae'n cynnig sesiynau addysg y blynyddoedd cynnar o ddydd Llun i ddydd Gwener, rhwng 9am ac 11.30am yn ystod y tymor ysgol. Adeg yr arolygiad, roedd un deg chwech o blant yn derbyn addysg gynnar a ariennir.

Mae'r lleoliad wedi nodi bod gan leiafrif o blant anghenion dysgu ychwanegol. Mae ychydig iawn o blant o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, ac mae ychydig iawn o blant yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Nid oes unrhyw blant yn siarad Cymraeg gartref.

Mae chwe aelod o staff, gan gynnwys y tîm rheoli. Mae pob aelod o staff yn gweithio gyda phlant tair a phedair oed. Mae'r ymarferwr arweiniol wedi bod yn ei swydd er Hydref 2016.

Arolygodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) y lleoliad ym mis Ionawr 2018, ac ym mis Mawrth 2012 yr arolygodd Estyn y lleoliad ddiwethaf.

Crynodeb

Perfformiad presennol y lleoliad	Da
Rhagolygon gwella'r lleoliad	Da

Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- mae medrau cyfathrebu a rhifedd plant yn datblygu'n dda o'u manau cychwyn
- mae'r rhan fwyaf o blant yn cydweithredu'n llwyddiannus â'i gilydd ac yn barod i rannu teganau ac offer
- mae bron pob ymarferwr yn meddu ar ddealltwriaeth dda o arfer effeithiol yn y cyfnod sylfaen
- mae ystod fuddiol o brofiadau dysgu yn meithrin datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant yn dda
- mae'r lleoliad yn groesawgar ac mae'r holl ryngweithio rhwng ymarferwyr a phlant yn barchus a gofalgarg

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd:

- mae bron pob un o'r ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol ac yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n dda
- mae'r ymarferwr arweiniol wedi ymrwymo'n gryf i wella ansawdd
- mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer nodi ei gryfderau a'r meysydd i'w gwella yn effeithiol
- mae gan y lleoliad ystod eang o bartneriaethau hynod effeithiol sy'n gwella ansawdd y ddarpariaeth a'r deilliannau ar gyfer plant yn helaeth
- mae'r lleoliad yn gwneud defnydd da o staff ac adnoddau i gefnogi dysgu plant yn llwyddiannus

Argymhellion

- A1 Sicrhau bod plant yn datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn raddol
- A2 Cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg i alluogi plant i gymhwyso eu medrau yn annibynnol ac yn hyderus
- A3 Cynllunio cyfleoedd digonol i blant arwain eu chwarae eu hunain, archwilio a datblygu eu syniadau, dyfalbarhau a datrys problemau

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, yn disgrifio'r arfer ragorol a nodwyd yn ystod yr arolygiad, yn dwyn y teitl: 'Gweithio mewn partneriaeth â rhieni i ddatblygu dull cyfannol o gefnogi dysgu plant', i'w lledaenu ar wefan Estyn.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

Safonau: Da

Mae mwyafrif o blant yn dechrau yn y lleoliad gyda medrau a gwybodaeth yn unol â'r rheiny sy'n ddisgwylidig am eu hoedran, neu'n uwch. Yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad, mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da, yn enwedig wrth ddatblygu eu medrau corfforol, personol a chymdeithasol.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwrando'n astud. Maent yn talu sylw da pan fydd pobl eraill yn siarad ac yn caniatáu i bobl eraill siarad heb dorri ar eu traws. Mae'r rhan fwyaf o blant yn deall ac yn dilyn cyfarwyddiadau yn llwyddiannus, fel gwisgo eu cotiau a'u hesgidiau glaw cyn mynd y tu allan neu eistedd ar y mat cyn amser grŵp. Mae llawer ohonynt yn siarad yn glir ac maent yn hapus i rannu gwybodaeth am yr hyn y maent yn ei wneud gydag oedolion cyfarwydd. Mae tua hanner y plant yn sgwrsio'n hyderus ag oedolion am brofiadau yn y gorffennol, fel mwynhau gwledd ganol nos.

Yn ystod amser grŵp, mae bron pob un o'r plant yn rhoi sylw manwl i stori a gall ychydig ohonynt ateb cwestiynau syml yn ymwneud â rhediad y stori yn hyderus. Er enghraifft, maent yn rhagweld pwy allai fod yn curo ar y drws neu beth allai ddigwydd nesaf. Mae ychydig o blant yn dewis llyfrau yn annibynnol ac yn siarad am y lluniau gyda diddordeb. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn barod i gymryd rhan mewn gweithgareddau creu marciau gydag amrywiaeth o offer, ac mae ychydig ohonynt yn dechrau ysgrifennu at ddiben yn annibynnol. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu 'm' ar gerdyn Nadolig am 'mami'.

Mae medrau rhifedd y rhan fwyaf o blant yn datblygu'n dda o'u manau cychwyn. Mae llawer ohonynt yn dweud rhifau yn eu trefn i o leiaf ddeg, ac yn cyfrif pum merch a thri bachgen yn ystod y cyfnod cofrestru yn gywir. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dechrau defnyddio arian wrth chwarae, ac mae llawer ohonynt yn dechrau deall ei ddiben. Er enghraifft, defnyddiant ddarnau arian i dalu am ffrwythau yn y 'siop amser byrbryd'. Mae tua hanner y plant yn gwneud defnydd da o eirfa fathemategol. Maent yn disgrifio map o'r ardal leol fel 'anferth' ('humungous') ac yn awgrymu y 'bydd yna 100' ('there will be 100') wrth drafod faint o blant fydd yn y feithrinfa yfory.

Mae medrau corfforol y rhan fwyaf o blant yn datblygu'n dda o'u manau cychwyn. Defnyddiant ystod o offer fel llwyau, pennau ffelt a sialciau yn frwdfrydig ac mae ychydig ohonynt yn defnyddio siswrn yn llwyddiannus heb lawer o gymorth. Mae llawer o blant yn datblygu medrau echddygol bras fel cydsymud a chymbwysu, wrth ymlwybro drwy ofod ar dreisiclau neu gydbwysu pluen unionsyth paun ar gledr eu llaw. Maent yn datblygu eu medrau pêl yn llwyddiannus, ac mae ychydig o blant yn archwilio gwahanol ffyrdd o symud pêl â rased yn hyderus.

Mae llawer o blant yn cael at, ac yn manteisio ar, ychydig o adnoddau TGCh cyfarwydd yn briodol. Maent yn chwarae â ffonau symudol wedi'u hailgylchu a thil sy'n cael ei weithredu â batri yn annibynnol. Mae llawer o blant yn defnyddio llechi cyfrifiadurol ac yn archwilio tegan rhaglenadwy gyda chymorth. Er enghraifft, maent yn tynnu llun o ffordd y maent wedi'i hadeiladu yn yr ardal adeiladu. Fodd bynnag, nid yw medrau TGCh plant wedi'u datblygu'n ddigonol ar y cyfan.

Mae bron pob un o'r plant yn gwneud penderfyniadau am y gweithgareddau y maent yn ymgymryd â nhw a'r adnoddau y byddant yn eu defnyddio. Mae llawer ohonynt yn archwilio eu hamgylchedd yn hyderus, ac mae ychydig ohonynt yn dechrau datblygu eu medrau meddwl yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn cydnabod bod angen darn hwy o dâp arnynt wrth lapio arheg fawr.

Mae llawer o blant yn datblygu eu medrau Cymraeg yn effeithiol mewn perthynas â'u manau cychwyn. Mae llawer o blant yn ymateb yn gadarnhaol i orchmynion syml a roddir yn Gymraeg, ac yn ymuno ag amrywiaeth o ganeuon a rhigymau Cymraeg. Yn ystod amser grŵp, maent yn cyfrif i wyth yn Gymraeg, ac mae ychydig iawn ohonynt yn cyfrif i ddeg. Mae mwyafrif o blant yn enwi ychydig o liwiau yn Gymraeg wrth gasglu cwpan amser byrbryd. Fodd bynnag, ychydig iawn o blant sy'n defnyddio'r Gymraeg yn annibynnol.

Lles: Da

Mae bron pob un o'r plant yn ymgynefino'n dda cyn gynted ag y byddant yn cyrraedd y lleoliad. Maent yn cydweithredu'n effeithiol â'i gilydd ac yn rhannu tegau ac offer yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf o blant yn cymryd sylw da o gyfarwyddiadau sy'n cael eu rhoi gan oedolyn ac yn ymateb i geisiadau yn gadarnhaol, fel golchi eu dwylo cyn iddynt gael byrbryd.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymddwyn yn dda. Maent yn gofalu am adnoddau'r lleoliad ac yn trin oedolion a phlant â pharch. Maent yn gwrtais ac yn dangos moesau da pan gânt eu hannog i wneud hynny. Mae ychydig o blant yn dangos moesau da iawn, er enghraifft cyflwyno eu hunain a ffrind i oedolyn anghyfarwydd.

Mae bron pob un o'r plant yn gwneud dewisiadau hyderus am eu chwarae o weithgareddau sydd ar gael, a gall bron pob un o'r plant wneud hyn pan gânt gymorth gan oedolyn. Mae llawer o blant yn rhannu eu syniadau ar gyfer gweithgareddau yn y dyfodol gydag ymarferwyr yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn esbonio'r hyn sydd ei eisiau arnynt i wneud cardiau Nadolig a chwarae ag eira. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cynnal diddordeb mewn gweithgareddau ac yn symud yn hyderus i weithgaredd arall pan fyddant yn barod. Cânt fwynhad mawr o gymryd arnynt eu bod yn paratoi bwyd yn yr ardal chwarae rôl boblogaidd.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu hannibyniaeth yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn golchi eu cwpan a'u powlen ar ôl amser byrbryd. Fodd bynnag, mae ychydig o blant yn gyflym i ofyn am gymorth yn hytrach na dyfalbarhau â thasgau, fel gwisgo eu côt a'u hesgidiau.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?
--

Da

Profiadau dysgu: Da

Mae'r lleoliad yn darparu ystod fuddiol o brofiadau dysgu dan do ac yn yr awyr agored, sy'n ennyn diddordeb bron pob un o'r plant yn llwyddiannus. Mae ymarferwyr yn canolbwyntio'n dda ar ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a chorfforol plant. Maent yn addasu darpariaeth yn gyson i ystyried syniadau a diddordebau plant unigol. Er enghraifft, maent yn creu gardd tylwyth teg yn yr ardd synhwyraidd ar ôl i blant ddangos diddordeb mewn tylwyth teg.

Mae ymarferwyr yn defnyddio ymwelwyr yn llwyddiannus i wella'r cwricwlwm. Er enghraifft, mae heddweision cymunedol a swyddogion tân wedi cefnogi dealltwriaeth plant o sut i aros yn ddiogel. Caiff plant gyfleoedd rheolaidd hefyd i fynd ar ymweliadau i gyfoethogi eu dysgu, er enghraifft i archfarchnad leol lle maent yn gwneud eu bara eu hunain.

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd effeithiol i blant ddysgu gofalu am bethau byw. Mae ymarferwyr yn cynorthwyo plant i dyfu a gofalu am amrywiaeth o ffrwythau a llysiau, fel mefus a chennin. Maent yn annog plant i ddangos caredigrwydd at greaduriaid wrth arsylwi creaduriaid bach yn yr ardal awyr agored a mwyrtho anifeiliaid sy'n ymweld â'r lleoliad.

Mae'r amgylchedd dan do yn darparu cyfleoedd defnyddiol i blant ddatblygu eu medrau corfforol, fel defnyddio siswrn, pennau ffelt a phlycwyr. Mae'r ardal awyr agored yn darparu cyfleoedd da ar gyfer rhedeg, dringo a chydbwysu, ac mae plant yn manteisio ar yr ardal yn hyderus. Mae ymarferwyr yn gwella darpariaeth trwy weithgareddau a gynllunnir yn rheolaidd, fel gemau pêl a medrau syrcau, yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu medrau corfforol.

Mae bron pob un o'r ymarferwyr yn darparu ystod effeithiol o gyfleoedd i blant ddatblygu eu medrau rhifedd. Mae darpariaeth chwarae rôl, fel y siop ffrwythau amser byrbryd, yn rhoi cyfleoedd i blant gyfrif, archwilio arian, didoli ffrwythau a chymharu maint. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar gynnydd plant wrth ddatblygu medrau mathemategol. Mae gweithgareddau cynlluniedig fel lapio 'anrhegion Nadolig' o wahanol faint yn cefnogi dealltwriaeth plant o fesur yn dda.

Mae'r ddarpariaeth i gefnogi datblygiad medrau cyfathrebu plant yn effeithiol. Mae bron pob un o'r ymarferwyr yn sgwrsio â phlant yn llwyddiannus, ac yn defnyddio adnoddau fel hen deffonau i annog medrau siarad a gwranddo plant yn dda. Er enghraifft, mae plant yn sgwrsio â ffrind ar y ffôn ac yn gofyn pryd y bydd yn dod i gael te. Mae ymarferwyr yn rhannu storïau a rhigymau â phlant ac yn dangos iddynt sut i drin a thrafod llyfrau â gofal. Maent yn darparu cyfleoedd diddorol ar gyfer creu marciau, y mae plant yn cymryd rhan ynddynt yn frwdfrydig. Mae'r rhain yn cynnwys peintio ag ewyn eillio lliwgar dros rew sy'n toddi, a byrddau sialc graddfa fawr yn yr ardal awyr agored.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau TGCh plant yn amlwg yn yr ardal dan do, ac mae ystod effeithiol o offer ar gael. Mae'r rhain yn cynnwys camerâu digidol, llechi cyfrifiadurol a chanolfan wrando. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr yn defnyddio'r adnoddau hyn i ddatblygu medrau plant ar draws y cwricwlwm yn ddigon graddol.

Mae bron pob un o'r ymarferwyr yn cefnogi datblygiad Cymraeg plant yn briodol. Mae ychydig o ymarferwyr yn modelu'r Gymraeg trwy ganu caneuon, cyfrif a defnyddio geiriau ac ymadroddion Cymraeg yn ystod amser grŵp yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn defnyddio'r Gymraeg yn systematig trwy gydol y sesiwn. Caiff plant gyfleoedd gwerth chweil i ddysgu am eu treftadaeth Gymreig, er enghraifft wrth greu modelau o gennin Pedr fel rhan o'u dathliadau Dydd Gŵyl Dewi.

Addysgu: Da

Mae bron pob un o'r ymarferwyr yn meddu ar ddealltwriaeth dda o arfer effeithiol yn y cyfnod sylfaen. Defnyddiant amrywiaeth o strategaethau yn fedrus i annog a chymhell plant i ddysgu. Mae bron pob un o'r ymarferwyr yn esbonio pethau'n glir, yn modelu gweithgareddau ac yn holi plant yn effeithiol. Defnyddiant adnoddau yn ddychmygus i gofnodi diddordebau plant. Er enghraifft, maent yn darparu cyfleoedd i blant archwilio peintio ag ewyn eillio lliwgar dros rew sy'n toddi.

Mae gweithgareddau yn adeiladu'n effeithiol ar ddiddordebau plant wrth i ymarferwyr arsylwi pa mor dda y mae plant wedi ymdrin â gwahanol adnoddau, ac yn ymgynghori â nhw am y pethau yr hoffent eu gwneud. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn cynllunio gêm daflu gan ddefnyddio peli eira tegan ar ôl i'r plant fynegi diddordeb mewn chwarae ag eira.

Mae gan y lleoliad ystod effeithiol iawn o weithdrefnau asesu. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn arsylwi plant yn ystod eu hwythnosau cyntaf yn y lleoliad, ac yn nodi'r hyn y maent eisoes yn gallu ei wneud. Hefyd, maent yn cofnodi arsylwadau defnyddiol i ddangos cynnydd ac ymatebion plant i ddarpariaeth. Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni'n dda iawn am gynnydd plant. Mae ymgynghoriadau tymhorol gyda rhieni yn sicrhau bod rhieni ac ymarferwyr yn gweithio mewn partneriaeth i drafod cyflawniadau diweddar plant a sut orau i gefnogi eu dysgu yn y dyfodol.

Mae'r lleoliad wedi datblygu ystod ddefnyddiol o strategaethau i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol, ac mae'r rhan fwyaf o blant yn ymateb i'r rhain yn dda. Mae gan bron pob un o'r ymarferwyr ddisgwyliadau clir ac maent yn esbonio rheolau i blant yn briodol. Er enghraifft, maent yn esbonio pam dylai'r plant rannu'r matiau lliw wrth chwarae gêm hopian y tu allan. Mae hyn yn sicrhau dull tîm a chysondeb i'r plant.

Mae ymarferwyr yn cyfuno tasgau â ffocws gyda chwarae rhydd plant yn briodol. Fodd bynnag, mae'r amserlen yn cynnwys tasgau sy'n cael eu cyfarwyddo gan oedolyn yn bennaf, ac nid yw llawer o blant yn elwa ar gyfnodau estynedig o ddysgu di-dor. Mae hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd i blant gymryd rhan fanwl yn eu chwarae, archwilio eu syniadau, dyfalbarhau a datblygu eu medrau datrys problemau.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae gan y lleoliad drefniadau llwyddiannus i gynorthwyo plant i fwyta ac yfed yn iach. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn annog plant i fwyta byrbrydau iach a blasu bwydydd newydd fel ciwi a hwmws. Maent yn darparu dewis o laeth neu ddŵr i'w yfed. O ganlyniad, mae dewisiadau bwyd bron pob un o'r plant yn iach. Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i blant wneud ymarfer corff yn rheolaidd dan do ac yn yr awyr agored fel ei gilydd. Mae hyn yn llwyddo i ddatblygu cydsymud plant ac yn eu hannog i fabwysiadu ffordd iach o fyw.

Mae ystod fuddiol o brofiadau dysgu yn meithrin datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant yn dda. Mae ymarferwyr yn fodolau rôl da ac yn cynorthwyo plant i ddatblygu parch at bobl eraill, a synnwyr o dda a drwg, yn llwyddiannus. Maent yn annog plant i rannu offer a gofalu am adnoddau yn effeithiol. O ganlyniad, mae llawer o blant yn dysgu cydweithredu'n dda â'i gilydd. Er enghraifft, maent yn gwneud cacennau bach â thoes chwarae gyda ffrind yn y gegin chwarae rôl.

Mae ymarferwyr yn llwyddo i feithrin synnwyr o barchedig ofn a rhyfeddod mewn plant, er enghraifft trwy eu hannog i wyllo sioncyn y gwair y maent yn dod o hyd iddo yn yr ardal awyr agored. Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd gwerth chweil i ddatblygu ymwybyddiaeth ddiwylliannol plant, fel sesiynau canu rheolaidd, gan ddarparu amrywiaeth o offerynnau a chyflwyno sesiynau cerddorol â symudiadau.

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd ystyrion i blant ddysgu am gynaliadwyedd fel ailgylchu eu gwastraff bwyd. Mae ymarferwyr yn gweithredu fel modelau rôl cadarnhaol trwy ddefnyddio llawer o adnoddau wedi'u hailgylchu yn yr amgylchedd dysgu. Mae'r lleoliad yn annog plant i ddefnyddio deunyddiau naturiol a deunyddiau wedi'u hailgylchu wrth iddynt chwarae, fel boncyffion, plu a chregyn.

Mae prosesau buddiol i gynorthwyo plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r rhain yn cynnwys cysylltiadau effeithiol ag ystod o asiantaethau cymorth sy'n helpu bodloni anghenion unigol plant yn effeithiol.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r lleoliad yn groesawgar iawn ac mae'r holl ryngweithio rhwng ymarferwyr a phlant yn barchus a gofalgar. Maent yn annog pob un o'r plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau ac mae ganddynt fynediad cyfartal at bob ardal yn narpariaeth y lleoliad. Mae ymarferwyr yn arwain trwy esiampl wrth annog plant i ddangos goddefgarwch tuag at ei gilydd, a pharch at offer y lleoliad. O ganlyniad, mae llawer o blant yn chwarae a dysgu'n hapus.

Mae safle newydd y lleoliad yn ddiogel ac wedi'i gyflwyno'n dda. Ceir digon o adnoddau o ansawdd da ar draws y meysydd dysgu, sy'n bodloni anghenion y plant yn dda.

Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd creadigol o'r gofod dan do, sy'n ddeniadol a difyr. Maent yn sicrhau bod adnoddau'n hygyrch ar gyfer plant, sy'n cefnogi eu hannibyniaeth yn dda. Mae'r ardal awyr agored boblogaidd a'r ardd synhwyrdd wedi cael eu datblygu'n llwyddiannus yn amgylcheddau dysgu gwerthfawr, sy'n hyrwyddo datblygiad medrau llythrennedd, rhifedd a medrau corfforol plant yn effeithiol.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Da
--	-----------

Arweinyddiaeth: Da

Mae gan yr ymarferwr arweiniol weledigaeth glir i sicrhau bod y lleoliad yn darparu gofal o ansawdd da sy'n cynorthwyo plant i fod yn ddysgwyr annibynnol. Mae'n gweithio'n effeithiol gyda staff y lleoliad i ddarparu amgylchedd meithringar a gofalgar ar gyfer pob un o'r plant. Mae arweinwyr yn rheoli ymarferwyr a phlant yn effeithiol i sicrhau bod y lleoliad yn rhedeg yn esmwyth, gan ddilyn arferion sefydledig. Mae ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol ac yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n dda.

Mae gan y lleoliad drefniadau effeithiol ar gyfer rheoli perfformiad staff. Caiff bron pob un o'r staff gyfleoedd defnyddiol i drafod a myfyrio ar ansawdd eu gwaith. Mae'r ymarferwr arweiniol yn cynorthwyo staff yn effeithiol i ddatblygu eu gwybodaeth am y cyfnod sylfaen, a gwella eu medrau wrth ei gyflwyno. Mae ymarferwyr yn manteisio ar gyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus sy'n cysylltu'n briodol â blaenoriaethau'r lleoliad ar gyfer gwella.

Ceir ystod o bolisiau a gweithdrefnau buddiol i gefnogi trefniadaeth y lleoliad, ac mae staff yn adolygu'r rhain yn effeithiol. Mae arweinwyr yn rhoi sylw priodol i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol, ac o ganlyniad, mae ffocws llwyddiannus ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant.

Mae gan y pwyllgor rheoli rôl weithredol ym mywyd y lleoliad, ac mae'r cyfathrebu rhwng yr ymarferwr arweiniol ac aelodau'r pwyllgor yn effeithiol. Mae'r pwyllgor yn darparu cymorth gwerthfawr, yn enwedig â rheoli cyllid y lleoliad.

Gwella ansawdd: Da

Mae'r ymarferwr arweiniol wedi ymrwymo'n gryf i wella ansawdd ac mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer nodi ei gryfderau a'r meysydd i'w gwella yn effeithiol. Mae'r ymarferwr arweiniol yn gwneud defnydd buddiol o wybodaeth o ystod o ffynonellau i lywio'r broses hunanwerthuso. Er enghraifft, mae'n ystyried safbwyntiau staff pan fyddant yn rhannu eu gwerthusiadau am ansawdd y ddarpariaeth.

Mae bron pob un o'r ymarferwyr yn gwybod beth mae'r lleoliad yn ei wneud yn dda a'r meysydd y mae angen iddynt eu gwella. Gallant esbonio'r hyn y maent wedi eu nodi yn flaenoriaethau i godi safonau. Mae gan lawer o staff ymagwedd gadarnhaol at ddatblygiad proffesiynol parhaus, ac maent yn ymdrechu i wella eu perfformiad. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth, er enghraifft trwy wella medrau cyfathrebu a medrau corfforol plant.

Mae'r cynllun gwella yn nodi'n glir yr hyn y mae angen i'r lleoliad ei ddatblygu. Mae'n ddogfen drefnus sy'n nodi camau gweithredu, graddfeydd amser a chyfrifoldebau priodol. Daw'r targedau yn y cynllun yn uniongyrchol o'r broses monitro a hunanwerthuso, ac maent yn ffurfio blaenoriaethau defnyddiol i'r lleoliad.

Mae'r lleoliad wedi gwneud cynnydd effeithiol wrth fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad blaenorol.

Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol

Mae gan y lleoliad ystod eang o bartneriaethau hynod effeithiol sy'n gwella ansawdd y ddarpariaeth a'r deilliannau ar gyfer plant yn helaeth.

Mae partneriaethau â rhieni yn gryf iawn. Mae bron pob un o'r rhieni yn dangos lefelau eithriadol o uchel o foddhad. Mae'r lleoliad yn cyfathrebu'n eithriadol o effeithiol gyda rhieni trwy ddiweddariadau ar y cyfryngau cymdeithasol, diwrnodau agored, cylchlythyrau a sgysiau anffurfiol. O ganlyniad i hyn, mae rhieni'n teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn dda ym mywyd y lleoliad, ac yn cael digonedd o rybudd am ddiwyddiadau a dathliadau.

Mae ymarferwyr yn cynnal ymgynghoriadau tymhorol gyda rhieni. Yn ystod y cyfarfodydd hyn, mae rhieni ac ymarferwyr yn rhannu gwybodaeth fanwl am ddiddordebau, cyflawniadau a chynnydd plant ar draws meysydd dysgu. Mae ymarferwyr a rhieni yn gweithio gyda'i gilydd i nodi profiadau a chyfleoedd i gefnogi dysgu plant yn y dyfodol yn dda iawn. Mae'r rhain yn cynnwys awgrymiadau am weithgareddau defnyddiol y gellid eu gwneud gartref, fel creu marciau a phobi. Mae hyn yn sicrhau yr ymgynghorir â rhieni, ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu hysbysu'n eithriadol o dda am gynnydd eu plentyn. Mae ymarferwyr yn cael golwg lawn o bob plentyn, ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i lywio eu cynllunio.

Mae ymarferwyr yn mynd ati i gynnwys rhieni mewn gwneud penderfyniadau, a rhieni yn unig yw aelodau'r pwyllgor rhieni. Mae ymarferwyr yn hynod ymatebol i syniadau rhieni, ac yn gofyn yn rheolaidd am eu barn. Er enghraifft, cysylltodd yr ymarferwr arweiniol â sefydliad arlwyo, a threfnodd fod prydau poeth ar gael i blant, ar ôl i ychydig o rieni awgrymu y byddai hyn yn fuddiol.

Mae'r lleoliad yn gwahodd rhieni i ymuno â dathliadau a digwyddiadau fel y cyngerdd Nadolig a diwrnod mabolgampau. Mae ymarferwyr yn cynnwys rhieni'n rheolaidd mewn gwella ansawdd y ddarpariaeth, ac mae rhieni'n ymatebol iawn i hyn. Er enghraifft, yn ddiweddar, fe wnaethant helpu'r lleoliad i greu gardd synhwyrdd ysgogol. Cyfrannodd rhieni a theuluoedd adnoddau ac amser i greu gwely plannu, a phlannwyd amrywiaeth o lysiau a pherlyisiau. Mae hyn wedi arwain at ddarpariaeth well i gefnogi datblygiad medrau corfforol, rhifedd a llythrennedd plant.

Ceir trefniadau hynod effeithiol ar gyfer sefydlu plant yn y lleoliad, a'u pontio graddol i'r ysgol. Mae'r ymarferwr arweiniol wedi datblygu partneriaeth gref iawn â'r ysgol sy'n cefnogi dysgu plant yn helaeth. Mae'n croesawu athrawes y dosbarth derbyn i'r lleoliad yn rheolaidd trwy gydol y flwyddyn, gan alluogi'r plant i ddod i adnabod eu hathro cyn dechrau'r ysgol. Mae plant o'r lleoliad yn mynychu gwasanaethau dathlu rheolaidd yn yr ysgol, ac mae disgyblion o'r cyfnod sylfaen yn ymweld â'r lleoliad yn rheolaidd i ddarllen storïau i'r plant iau. Tuag at ddiwedd y flwyddyn, mae ymarferwyr yn rhannu gwybodaeth fuddiol am ddiddordebau, dysgu a datblygiad unigol plant gyda'r ysgol. Mae hyn yn cefnogi eu cynnydd parhaus, gan eu bod yn dechrau yn y dosbarth derbyn yn eithriadol o dda fel plant sydd wedi ymgynefino ac yn barod i ddysgu.

Mae'r ymarferwr arweiniol ac athrawes y dosbarth derbyn yn trafod arferion yn rheolaidd, ac yn mynychu hyfforddiant gyda'i gilydd. Mae hyn yn eu galluogi i rannu arbenigedd ac adnoddau yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae'r lleoliad wedi elwa ar gael benthyg adnoddau mathemateg o'r ysgol, a chael cyngor am sut i wella'r ddarpariaeth ar gyfer medrau yn yr ardal awyr agored.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd helaeth o'i gysylltiadau â sefydliadau proffesiynol ac asiantaethau allanol eraill. Er enghraifft, gwahoddodd y lleoliad elusen bywyd gwyllt i gynorthwyo plant i greu eu tai eu hunain i bryfed ar gyfer yr awyr agored ac i fynd adref gyda nhw. Roedd y prosiect yn golygu bod plant yn defnyddio offer go iawn ac yn cefnogi eu medrau corfforol yn effeithiol iawn.

Rheoli adnoddau: Da

Mae'r ymarferwr arweiniol yn gwneud defnydd da o staff ac adnoddau i gefnogi dysgu plant yn effeithiol. Mae gan y lleoliad ymarferwyr sy'n meddu ar gymwysterau addas i fodloni gofynion y cyfnod sylfaen yn llwyddiannus. Ceir digonedd o adnoddau, ac maent o ansawdd da, er enghraifft yr amrywiaeth eang o offer i gefnogi datblygiad corfforol.

Mae'r lleoliad yn sicrhau bod y rhan fwyaf o staff yn elwa ar hyfforddiant ar sail anghenion a nodwyd trwy'r broses werthuso. Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn gwneud defnydd da o hyfforddiant i wella darpariaeth hefyd. Mae hyn wedi eu cynorthwyo i wella agweddau, fel gwybodaeth ymarferwyr am sut i gefnogi medrau cyfathrebu plant.

Mae'r pwyllgor a'r arweinwyr yn cynllunio'n effeithiol i ddarparu adnoddau ar gyfer blaenoriaethau a nodwyd. Er enghraifft, yn ddiweddar, prynodd y lleoliad nifer o adnoddau i gefnogi datblygiad medrau corfforol plant. Mae'r lleoliad yn rhagweithiol o ran trefnu digwyddiadau codi arian a sicrhau grantiau sy'n cefnogi cyllideb y lleoliad yn dda.

O ganlyniad i ansawdd da'r addysgu, ansawdd y ddarpariaeth a'r cynnydd a wna plant, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

Rhestr termau

AGC	Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn is-adran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru.
Athro ymgynghorol awdurdod lleol	Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed.
Y Cyfnod Sylfaen	Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed
Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)	Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned.
Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)	Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau.
Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)	Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref.
Meysydd Dysgu	Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> • datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol • medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu • datblygiad mathemategol • datblygu'r Gymraeg • gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd • datblygiad corfforol • datblygiad creadigol
Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)	Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth.

Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)	Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012
Mudiad Meithrin	Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg